# Capsiwlotomi YAG

Llawlyfr gwybodaeth i gleifion



## Ynghylch capsiwlotomi YAG

Y capsiwl ôl yw'r mân bilen tu cefn i lens y llygad. Gadewir y capsiwl hwn yn y llygad yn dilyn llawdriniaeth cataract, i gefnogi'r mewnblaniad lens artiffisial.

Mewn tua 10% o gleifion cataractau, mae'r bilen dryloyw'n tewychu. Mae hyn yn creu dirywiad cynyddol yn y golwg. Gall y tewychu hwn ddigwydd misoedd neu hyd yn oed blynyddoedd ar ôl y llawdriniaeth. Pe digwydd i'r capsiwl dewychu, bydd angen capsiwlotomi laser YAG i wella'r golwg. Mae YAG yn golygu grisialau Yttriwm, Alwminiwm a Garned, sy'n cynhyrchu'r laser.

## Pam ddylwn i gael capsiwlotomi YAG?

Weithiau, gall cymylu'r capsiwl ôl fod yn drwchus iawn. Nid yw'r cymylu hwn yn niweidio'r llygad, ond gall effeithio ar y golwg gymaint â'r cataract gwreiddiol.

Os oes nam sylweddol ar y golwg, dylid cynnal capsiwlotomi YAG. Bydd y capsiwlotomi'n lleihau llewych ac yn adfer y golwg i sut yr oedd wedi'r llawdriniaeth cataract gwreiddiol.

Mae capsiwlotomi YAG yn llawdriniaeth diogel, ddiarcholl, ac mae cymhlethdodau difrifol yn brin.

SpaMedica NHS

## Eich asesiad cyn llawdriniaeth

Yn yr apwyntiad hwn, bydd ein tîm clinigol yn profi'ch golwg a gwirio pwysedd y llygad.

Bydd diferion i ymledu canhwyllau'r ddau lygad yn cael eu rhoi ynddynt cyn i'r clinigydd eu harchwilio.  Nodwch y bydd y diferion hyn yn gwneud eich golwg yn aneglur am tua 4 awr, felly byddwch angen rhywun i yrru chi gartref wedi'r apwyntiad hwn.

Fe fyddwch yn cael y cyfle i godi unrhyw ymholiadau neu bryderon ag aelodau o'r tîm yn ystod eich asesiad cyn llawdriniaeth.

Yn eich apwyntiad cyn asesiad byddwch yn gweld y clinigydd ar gyfer eich archwiliad llygaid. Os yn briodol byddwch yn arwyddo ffurflen cydsyniad ar gyfer y driniaeth laser YAG arfaethedig ac yna byddwch yn derbyn apwyntiad i ddychwelyd ar gyfer y llawdriniaeth hon.

Rydym ond yn trin un llygad ar y tro, felly os yw'r ddau lygaid angen triniaeth laser YAG yna bydd dau apwyntiad yn cael eu bwcio ichi tua bythefnos ar wahân.

## Y llawdriniaeth

Bydd eich golwg yn cael ei wirio'n gyntaf, felly dewch â'ch sbectol gyda chi i'r apwyntiad. Bydd diferion a ddefnyddir i ymledu canhwyllau'ch llygaid yn cael eu rhoi i mewn i un llygad neu'r ddau, a fydd yn gwneud eich golwg yn aneglur am nifer o oriau.

**Ni fyddwch yn gallu gyrru adref ar ôl defnyddio'r diferion hyn, felly dewch â rhywun gyda chi neu gwnewch drefniadau trafnidiaeth addas.**

Perfformir y llawdriniaeth gyda beiriant laser wedi ei gysylltu â microsgop confensiynol â golau llachar a chul.  Defnynnir diferion anesthetig cyn y driniaeth. Gall lens gyffwrdd ei gosod ar y llygad i ffocysu y pelydr laser ac i gadw'r llygad yn agored.

Mae'r llawdriniaeth yn para am tua 5-10 munud. Yn ystod y cyfnod hwn byddwch yn clywed bipiau a phrofi goleuadau llachar. Nid oes ond ychydig o anesmwythdra.

## Ar ôl y driniaeth

Yn syth ar ôl eich triniaeth laser YAG bydd eich golwg yn aneglur, ond fe ddylai wella dros yr oriau nesaf.

- Yn gyffredinol, gallwch sylwi ar ‘frychau’ yn y llygad, ond mae’r rhain yn dueddol o setlo oddi mewn i’r 2 wythnos gyntaf.

- Os ydych yn profi cawod sydyn o ‘frychau’, fflachiadau o olau neu’r ymdeimlad o len yn dod dros eich golwg, dylech gysylltu â SpaMedica ar y rhif a ddarparwyd, gan gallai hyn ddynodi retina rydd.

- Dylech hefyd gysylltu â SpaMedica os ydych yn profi poen difrifol neu golli golwg wedi’r driniaeth

- Bydd rhai cleifion angen apwyntiadau dilyniant yng nghlinig y cleifion allanol. Cyn ichi adael, bydd gweithredydd y laser yn cynghori a fydd angen apwyntiad arall

- Gallwch ail-ddechrau gyrru y diwrnod canlynol

- Efallai byddwch angen ymweld â’r optegydd wythnos ar ôl y driniaeth

## Risgiau capsiwlotomi YAG

Fel gydag unrhyw driniaeth feddygol, mae i driniaeth laser ei beryglon. Ni ellir warantu gwelliant yn y golwg. Fodd bynnag, mae cymhlethdodau difrifol yn brin. Mae risgiau capsiwlotomi YAG yn cynnwys:

- Retina rydd – gall y retina, sef leinin mewnol y llygad, ddod yn rhydd. Os gadewir hyn heb ei drin, gall arwain at golwg wan eu golli'r golwg yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, os canfyddir hyn yn gynnar, gellir ei drin yn llwyddiannus. Mae achosion o retina yn dod yn rhydd yn brin

- Oedema maciwlar – gall y retina chwyddo gan achosi golwg aneglur. Gellir trin hwn yn feddygol ond gall gymryd llawer o wythnosau i wella. Mae'r posibilrwydd o oedema maciwlar ar ôl capsiwlotomi YAG yn brin ond mae'n gyffredin ymysg pobl â diabetes.

- Gall y driniaeth achosi glawcoma i waethygu neu greu dyrchafiad dros dro mewn pwysau tu mewn i'r llygad Gellid trin hyn yn feddygol fel rheol

- Yn fwy prin, gallai fod niwed i lens y llygad gan y laser YAG gan achosi problemau gweld. O dan amgylchiadau eithriadol, gall y lens ddod yn rhydd neu bydd angen ei newid yn nes ymlaen

- Yn brin iawn, efallai bydd angen triniaeth feddygol neu laser ychwanegol ar ôl y driniaeth capsiwtomi YAG er mwyn cael y golwg gorau posibl

## Os ydych angen cymorth ar unwaith, galwch ni ar ein rhif achosion brys: 0161 838 0883

- Plwc o boen yn neu o gwmpas y llygad a dderbyniodd y llawdriniaeth
- Cur pen difrifol ym mhen blaen y pen gyda, neu heb gyfog a thaflu i fyny. Yn barhaus hyd yn oed ar ôl paracetamol
- Dirywiad cynyddol yn y golwg, neu golli golwg
- Cochni cynyddol o gwmpas eich llygad gyda phoen difrifol, llif gludiog neu'r amrant yn chwyddo

Ymholiadau cyffredinol galwch 0330 058 4280

## Adborth/Cwynion

Mae SpaMedica yn wastad yn gwrando ar ein cleifion ac rydym yn gwerthfawrogi'ch adborth, da a drwg. Gadewch inni wybod beth rydym yn ei wneud yn dda a beth gallwn ni ei wneud yn well.

Os nad ydych yn fodlon â'r gwasanaeth rydych wedi ei dderbyn, gadewch inni wybod drwy gysylltu â ni, dros y ffôn, yn bersonol neu ysgrifennwch atom gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Datganwch eich gofal gan roi cymaint o fanylion ag y gallwch yn glir, gan gynnwys dyddiad eich apwyntiad a safle'r clinig.

Prif Swyddog Gweithredol
Swyddfa SpaMedica
43 Churchgate
Bolton,
BL1 1HU

T: 0330 058 4280 Prif
E: contact@spamedica.co.uk

## Sut i gysylltu â ni:


SpaMedica Ltd
43 Churchgate
BOLTON
BL1 1HU

T: 0330 058 4280
E: clinic@spamedica.co.uk
G: www.spamedica.co.uk


Cysylltwch â SpaMedica ar y rhif uchod, ar gyfer pob safle, os oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau sy'n berthnasol i'ch llygad.

Mae'r rhif hwn ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn ar gyfer achosion brys ac ar gyfer ymholiadau cyffredinol.

SpaMedica
www.spamedica.co.uk